# Staff Llanw / Banc - Gweithiwr Prosiect (Byw yn y Gymuned)

Lleoliad: Y Rhyl
Cyflog: Gradd 5, £14.35 yr awr
Oriau: Llanw

- Ydych chi'n chwilio am waith ychwanegol i'ch incwm cyfredol?
- Ydych chi eisiau hyblygrwydd gyda'ch oriau gwaith i fodloni o gwmpas eich bywyd gartref?
- Ydych chi'n ystyried gyrfa mewn gofal cymdeithasol ac yn ceisio ennill profiad?

Os mai 'ydw' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, yna hoffem glywed gennych chi.

Dyma gyfle gwych i ymuno â'n tîm ymroddedig o staff i gefnogi unigolion gydag anableddau cymhleth sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety a rennir yn y gymuned.

Darperir hyfforddiant llawn ynghyd ag telir ffioedd cofrestru a telir ffi gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan yr ymgeiswyr delfrydol agwedd gofalgar naturiol, a byddant eisiau gwneud gwahaniaeth ym mywydau eraill.

Penodir yn amodol ar wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymdeithasol a geirdaon boddhaol.

I gael trafodaeth anffurfiol ynghylch y swyddi sydd ar gael, ffoniwch Hannah Poole ar 01824 706085 neu Rob Gilmour ar 01824 708315.

Gallwch gyflwyno ffurflen gais ar wefan Cyngor Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk I wybod am ddulliau eraill o wneud cais dylech anfon e-bost at swyddigofalcymdeithasol@dsirddinbych.gov.uk neu ffonio 01824 712187.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i SafonauIaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraegyn cael eu trin yn llai ffafriolna ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

www.sirddinbych.gov.uk

✉ swyddigofalcymdeithasol@sirddinbych.gov.uk

☎ 01824 712187

Gofalwn.cymru

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Staff Llanw / Banc - Gweithiwr Prosiect (Byw yn y Gymuned)

Lleoliad: Y Rhyl
Cyflog: Gradd 5, £14.35 yr awr
Oriau: Llanw

**Staff Llanw / Banc - Gweithiwr Prosiect (Byw yn y Gymuned)**

Dyma gyfle gwych i ymuno â'n tîm ymroddedig o staff i gefnogi unigolion gydag anableddau cymhleth sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety a rennir yn y gymuned.

Rydym yn chwilio am staff egnïol a brwdfrydig sydd eisiau her, gan sicrhau bod dewis a rheolaeth ar flaen yr holl gefnogaeth a roddir.

Darperir y gwasanaeth dros 7 niwrnod. Bydd y diwrnodau a’r oriau a weithir yn hyblyg.

## Ffurflen Gais

Mae eich cais yn bwysig i ni ac mae’n rhan arwyddocaol o’r broses ddethol. Mae’n bwysig eich bod yn llenwi’r ffurflen mor llawn a chywir a phosibl.

## Cyflogaeth

Dylech lenwi’r adran hon yn llawn, gan nodi pob cyfnod o gyflogaeth ers gadael addysg llawn amser, yn ogystal â dyddiadau sy’n dangos y mis a’r flwyddyn y cawsoch eich penodi/ gadael eich swydd. Rhaid i chi nodi unrhyw fylchau cyflogaeth yn glir, gan gynnwys dyddiadau ac egluro’r rheswm dros y bwlch mewn cyflogaeth, h.y. magu teulu, gofalu am berthynas, blwyddyn i ffwrdd ac ati.

## Geirdaon

Byddwn yn cysylltu â’ch dau gyflogwr diwethaf am eirda, neu digon i gyfrifo am y tair blynedd ddiwethaf, pa un bynnag sydd fwyaf. Darparwch enwau a e-bost chyfeiriadau’r canolwyr hyn gan y bydd hyn yn helpu cyflymu’r broses os cewch eich penodi.

Ar gyfer pob ymgeisydd, byddwn ond yn gwneud cais am eirdaon ar ôl gwneud ‘cynnig o gyflogaeth’.